**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

# Adroddiad 02-13 i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 22.9

Mawrth 2013

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliadcymru.org**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2082 1821
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: Safonau@cymru.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2013
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

# Adroddiad 02-13 i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 22.9

Mawrth 2013

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

Sefydlwyd y Pwyllgor Safonau ar 22 Mehefin 2011. Rôl y Pwyllgor yw cyflawni'r swyddogaethau a nodir yn Rheol Sefydlog 22. Mae'r rhain yn cynnwys: ymchwilio i gwynion a gyfeirir iddo gan y Comisiynydd Safonau; ystyried unrhyw faterion o egwyddor sy'n ymwneud ag ymddygiad Aelodau; sefydlu gweithdrefnau ar gyfer ymchwilio i gwynion; a threfnu Cofrestr Buddiannau'r Aelodau a chofnodion cyhoeddus perthnasol eraill sy'n ofynnol o dan y Rheolau Sefydlog.

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor



**Mick Antoniw (Cadeirydd)**
Llafur Cymru
Pontypridd



**Llyr Huws Gruffydd**
Plaid Cymru
Gogledd Cymru



**Mark Isherwood**
Ceidwadwyr Cymreig
Gogledd Cymru



**Kirsty Williams**
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Brycheiniog a Sir Faesyfed

# Cyflwyniad

1. Gwneir yr adroddiad hwn i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 22.9 a pharagraff 8.1 o'r Weithdrefn ar gyfer Ymdrin â Chwynion yn erbyn Aelodau'r Cynulliad[1] ("y Weithdrefn"), mewn cysylltiad â chŵyn yn erbyn Bethan Jenkins AC.

2. Nodir cylch gorchwyl y Pwyllgor Safonau Ymddygiad yn rheol Sefydlog 22. Yn unol â'r swyddogaethau a nodir yn Rheol Sefydlog 22.2, rhaid i'r Pwyllgor:

(i) mewn perthynas ag unrhyw gŵyn a gyfeirir ato gan y Comisiynydd Safonau bod Aelod heb gydymffurfio:

(a) â Rheol Sefydlog 2;

(b) ag unrhyw benderfyniad gan y Cynulliad ynglŷn â buddiannau ariannol neu fuddiannau eraill yr Aelodau;

(c) â Rheol Sefydlog 5;

(ch) ag unrhyw benderfyniad gan y Cynulliad ynglŷn â safonau ymddygiad yr Aelodau;

(d) ag unrhyw god neu brotocol a wnaed o dan Reol Sefydlog 1.10 ac yn unol ag adran 36(6) o'r Ddeddf;

(dd) â Rheol Sefydlog 3; neu

(e) â Rheol Sefydlog 4,

ymchwilio i'r gŵyn, cyflwyno adroddiad arni ac, os yw'n briodol, argymell camau mewn perthynas â hi;

(ii) ystyried unrhyw faterion o egwyddor ynglŷn ag ymddygiad yr Aelodau yn gyffredinol;

3. Mae'r adroddiad hwn yn nodi manylion y gŵyn a'r ffordd y penderfynodd y Pwyllgor ar ei argymhellion.

[1] Gweithdrefn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer Ymdrin â Chwynion yn erbyn Aelodau'r Cynulliad.

## Ystyried y Gŵyn

4. Mae adroddiad y Comisiynydd Safonau ar ei ymchwiliad i'r gŵyn i'w chael yn Atodiad A i'r adroddiad hwn. Mae'n nodi manylion y gŵyn a chanfyddiadau ymchwiliad ffurfiol y Comisiynydd.

5. Roedd y gŵyn yn honni methiant posibl i gydymffurfio â'r egwyddor ganolog sy'n graidd i'r Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau ym mis Ebrill 2010 (ynghyd â'r argraffiad diwygiedig ym mis Medi 2010), sy'n darparu mai:

> *'dim ond lwfansau a/neu dreuliau rhesymol sy'n codi'n anorfod mewn perthynas â'u gwaith y gall Aelodau'r Cynulliad eu hawlio.'*

6. Yn dilyn ei ymchwiliad, roedd y Comisynydd yn "gwbl fodlon y gwnaed yr hawliad gan yr Aelod gyda'r bwriadau gorau ac nad yw anonestrwydd na thwyll yn chwarae unrhyw ran o gwbl yn y trafodion hyn". Canfu, fodd bynnag, fod yr Aelod Cynulliad, drwy ei ymddygiad, wedi torri adrannau 4(b) a 4(e) o'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau'r Cynulliad, gan ei fod, wrth gyflwyno hawliad am ad-dalu costau, "[wedi methu] â'i gwneud yn gwbl glir nad oedd y gwaith o dan sylw wedi ei gwblhau, ac felly methodd â chefnogi a hyrwyddo'r egwyddor o fod yn agored a chryfhau ymddriedaeth a hyder y cyhoedd yn uniondeb y Cynulliad."

7. Cyfarfu'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad ddydd Mawrth 26 Chwefror 2013 i ystyried adroddiad y Comisiynydd Safonau. Cytunodd y Pwyllgor i drafod y gŵyn mewn sesiwn breifat. Roedd y Pwyllgor yn fodlon bod adroddiad y Comisiynydd yn cynnwys digon o wybodaeth a fyddai'n sail i'w drafodaethau, ac nad oedd angen gofyn am dystiolaeth bellach, yn ysgrifenedig nac ar lafar.

### Ystyriaeth y Pwyllgor o'i Benderfyniad

8. Yna, trafododd y Pwyllgor a oedd yr Aelod wedi torri un o'r materion o fewn Rheol Sefydlog 22.2(i) a pha gamau, os o gwbl, y dylai gynghori'r Cynulliad i'w cymryd pe bai'n canfod bod yr Aelod wedi torri un o'r materion.

9. Er bod yr Aelod wedi dechrau'r prosiect dan sylw gyda phob ewyllys da, nododd y Pwyllgor fod yr Aelod dan sylw wedi cydnabod y

gallai ei hawliad wedi bod yn 'fwy tryloyw', a bod ei gweithredoedd wedi golygu ei bod wedi mynd yn groes i'r Cod Ymddygiad.

10. Nododd y Pwyllgor ymhellach fod yr Aelod dan sylw wedi cydweithredu'n llawn ag ymchwiliad ffurfiol y Comisiynydd Safonau i'r gŵyn, a'i fod wedi cyflwyno datganiad personol llawn ynghylch yr amgylchiadau sy'n gysylltiedig â'r gŵyn, ac mae wedi'i gynnwys yn adroddiad y Comisiynydd.

11. Mae'r Aelod dan sylw wedi nodi, hefyd, nad yw am apelio yn erbyn canfyddiadau'r Pwyllgor nac unrhyw sancsiynau a gaiff eu hargymell yn yr achos hwn. Oherwydd hynny, mae'r Pwyllgor yn cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad cyn gynted â phosibl, ac o fewn y cyfnod 10 diwrnod arferol a nodir ym mharagraff 8.1 o'r Weithdrefn, pan gaiff yr Aelod y mae cwyn yn ei erbyn ddewis cyflwyno apel i'r Llywydd.

12. Cytunodd y Pwyllgor yn unfrydol â chanfyddiadau'r Comisiynydd (paragraff 10 yn ei adroddiad) fod gweithredoedd yr Aelod wedi torri paragraffau 4(b) a 4(e) o'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau'r Cynulliad.

13. Os yw unrhyw Aelod Cynulliad yn torri 'egwyddorion Nolan' o ran ymddygiad mewn bywyd cyhoeddus, barn y Pwyllgor Safonau Ymddygiad yw bod hyn yn fater difrifol. Mae enw da Cynulliad Cenedlaethol Cymru fel sefydliad, a ffydd a hyder y cyhoedd ynddo, yn dibynnu ar uniondeb a didwylledd yr Aelodau.

### Argymhellion y Pwyllgor

14. Mae'r methiant yn gysylltiedig ag ymddygiad personol yr Aelod, a'r sancsiynau sydd ar gael i'r Pwyllgor o dan paragraff 7.11 o'r Weithdrefn yw: y canfuwyd methiant i gydymffurfio ac na ddylid cymryd unrhyw gamau pellach; neu y canfuwyd methiant i gydymffurfio ac y dylid "ceryddu" yr Aelod o dan Reol Sefydlog 22.10.

### Argymhelliad 1

**Penderfyniad unfrydig y Pwyllgor yw argymell i'r Cynulliad, yn unol â 7.11(iii) o'r Weithdrefn, y canfuwyd methiant i gydymffurfio ac na ddylid cymryd unrhyw gamau pellach.**

15. Wrth wneud penderfyniad yn yr achos hwn, ystyriodd y Pwyllgor hefyd yr amgylchiadau arbennig sy'n ymwneud â chyflwyno'r hawliad

hwn. Yn benodol mae datganiad personol yr Aelod yn nodi nad yw'n ymddangos bod y ddogfen yn ystyried hawliadau a gafodd eu gwneud am waith nad yw wedi ei gwblhau eto. Mae'r Pwyllgor yn croesawu cyngor y Comisiynydd ynghylch y mater hwn, a roddwyd yn unol â'i bwerau o dan adran 7 o Fesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009. Y Mesur hwn oedd un o'r rhai cyntaf i gael ei basio gan y Cynulliad, ac mae'r achos hwn yn tynnu sylw at werth y pwerau statudol a roddir i'r Comisiynydd i roi cyngor felly i'r Cynulliad.

**Argymhelliad 2**

**Penderfyniad unfrydig y Pwyllgor yw argymell, yn unol â'i swyddogaethau o dan Reol Sefydlog 22.2(ii) 'ystyried unrhyw faterion o egwyddor ynglŷn ag ymddygiad yr Aelodau yn gyffredinol', ac yn ngoleuni'r amgylchiadau penodol y cyfeirir atynt yn adroddiad y Comisiynydd, fod y Bwrdd Taliadau yn adolygu i ba raddau y mae gweithredu'r Penderfyniad o ran Cyflogau a Lwfansau Aelodau'r Cynulliad yn sicrhau uniondeb, atebolrwydd, gwerth am arian a thryloywder o ran gwario arian cyhoeddus. Mae'r Pwyllgor yn argymell ymhellach fod Comisiwn y Cynulliad yn gweithredu i ddiwygio'r weithdrefn ar gyfer ymdrin â hawliadau treuliau er mwyn ystyried yr argymhellion ym mharagraffau 11 a 12 o adroddiad y Comisiynydd.**

16. Mae Cadeirydd y Pwyllgor wedi cyflwyno cynnig (yn unol â Rheol Sefydlog 22.11 a pharagraff 9.1 o'r Weithdrefn) yn galw ar y Cynulliad i gymeradwyo argymhellion y Pwyllgor.

**Atodiad A**

# CYFRINACHOL

**Oddi wrth:** Gerard Elias QC, y Comisiynydd Safonau

**At:** Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

## ADRODDIAD AR YMCHWILIAD FFURFIOL

## Cwyn yn erbyn BETHAN JENKINS AC

### Y gŵyn

1. Ar 10 Hydref 2012, cefais lythyr mewn perthynas â'r Aelod Cynulliad Bethan Jenkins ("yr Aelod"), gan Glerc y Cynulliad Cenedlaethol ("yr Achwynydd"). Dywedodd y Clerc ei bod yn gweithredu o dan adran 9 o Fesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009. Roedd y llythyr yn nodi pryderon ynghylch a oedd hawliad a wnaed gan yr Aelod wedi cael ei dalu mewn amgylchiadau lle nad oedd y gwaith yr hawliwyd amdano, mewn gwirionedd, wedi cael ei gwblhau.

2. Roedd y gŵyn yn honni ei bod yn bosibl bod yr egwyddor ganolog sy'n sail i'r Penderfyniad o ran Cyflogau a Lwfansau'r Aelodau ym mis Ebrill 2010 (ynghyd â'r fersiwn ddiwygiedig ym mis Medi 2010), wedi cael ei thorri. Mae'r Penderfyniad yn darparu'r canlynol:
*'Dim ond lwfansau a/neu dreuliau rhesymol sy'n codi'n anorfod mewn perthynas â'u gwaith y gall Aelodau'r Cynulliad eu hawlio'.*

3. Adolygais y dystiolaeth a oedd ar gael imi ar y pryd ac roeddwn yn fodlon bod y gŵyn yn dderbyniadwy gan fod gofynion paragraff 3 (i)-(vi) o'r weithdrefn berthnasol, sef y Weithdrefn ar gyfer Ymdrin â Chwynion yn erbyn Aelodau'r Cynulliad (24 Ebrill 2012) ("y Weithdrefn"), wedi cael eu

bodloni. Yn unol â hynny, hysbysais yr Aelod (gan ddefnyddio cyfryngwr) gan baratoi i symud i'r Cam Ymchwilio Ffurfiol.

4. Bryd hynny, cefais wybod bod yr Aelod mewn cyflwr "bregus" o ran iechyd a'i bod yn derbyn cyngor a thriniaeth feddygol. Gohiriais fy ymchwiliad (gan hysbysu'r Achwynydd) hyd nes iddi wella. Drwy lythyr at yr Aelod, dyddiedig 7 Ionawr 2013, ailddechreuais fy ymchwiliad ffurfiol.

**Ymchwiliad ffurfiol y Comisiynydd**

5. Gofynnais am y canlynol, ac fe'i darparwyd imi:
    - Cyfarfod gyda pherchennog y cwmni ffilm, A Thousand Pictures Video Production;
    - Datganiad personol wedi'i lofnodi gan yr Aelod. Hefyd, bu imi gyfweld â hi cyn iddi wneud datganiad drafft, ac ar ôl hynny;
    - Yr holl ohebiaeth / pob e-bost mewn perthynas â'r hawliad hwn rhwng yr Aelod, yr Uned Cymorth Busnes i Aelodau a'r cwmni ffilm;
    - Cyfweliad gyda phennaeth yr Uned Cymorth Busnes i Aelodau.

**Y ffeithiau a nodwyd gan y Comisiynydd**

6. O'r wybodaeth sydd ger fy mron, rwy'n nodi'r ffeithiau a ganlyn:

i Ym mis Mehefin 2010, neu tua'r adeg honno, trafododd Bethan Jenkins y posibilrwydd o gynhyrchu DVD addysgol ar waith Aelod Cynulliad gyda phennaeth yr Uned Cymorth Busnes i Aelodau. Gofynnodd a fyddai modd hawlio cost DVD o'r fath o'i Lwfans Costau Swyddfa.

ii Cadarnhaodd pennaeth yr uned y gellid ad-dalu cost o'r fath, gan fod y Lwfans Costau Swyddfa yn nodi:

- '*Caiff Aelodau hawlio Lwfans Costau Swyddfa mewn perthynas ag unrhyw gostau rhesymol yng nghyswllt rhedeg swyddfa ac*

*ymwneud ag etholwyr. Rhaid anfon derbynebau neu brawf o unrhyw wariant gydag unrhyw gais.*'[1]

iii Ar 23 Mawrth 2011, cyflwynodd Bethan Jenkins ffurflen hawlio am dreuliau o dan ei Lwfans Costau Swyddfa am £2,700. Roedd yr hawliad yn nodi mai DVD hyrwyddo oedd hwn, a fydd yn cael ei ddefnyddio i gynyddu gwybodaeth am y Cynulliad, Aelodau'r Cynulliad a'u gwaith. (Ffurflen hawlio wedi'i atodi)

iv Cafodd y taliad ei awdurdodi ac, ar gais yr Aelod, fe'i gwnaed yn uniongyrchol i gwmni o'r enw 'A Thousand Pictures Video Production;

v Er y gwnaed rhai ymholiadau rhagarweiniol a gwaith paratoi, gan yr Aelod a'r cwmni ffilm, ni chafod y cyflwyniad DVD ei gynhyrchu.

vi Roedd yr Aelod yn bwriadu i'r arian a hawliwyd gael ei wario ar gynhyrchu DVD hyrwyddo wedi'i gymeradwyo.

vii Perthynas fusnes yn unig oedd y berthynas rhwng yr Aelod a pherchennog y cwmni ffilm ac nid oedd yr Aelod mewn sefyllfa i ennill dim o'r berthynas, ar wahân i gynhyrchu'r DVD.

viii Ar ddiwedd 2012, yn dilyn ei ymchwiliad ei hun, datgelodd y Western Mail yn gyhoeddus fod y taliad wedi ei wneud ac nad oedd DVD wedi cael ei gynhyrchu;

ix Ym mis Ionawr 2013, yn dilyn awgrym a wnaed gennyf yn ystod y cyfweliad, gwnaeth y Cwmni ffilm ad-daliad llawn o £2,700 i'r Comisiwn, gan gydnabod nad oedd unrhyw bosibilrwydd realistig o ddechrau'r prosiect.

[1] S10.1.1 – Penderfyniadau'r Cynulliad o ran Cyflogau a Lwfansau'r Aelodau, 1 Ebrill 2010.

**Casgliadau**

7. Rwy'n gwbl fodlon y gwnaed yr hawliad gan yr Aelod gyda'r bwriadau gorau ac nad yw anonestrwydd na thwyll yn chwarae unrhyw ran o gwbl yn y trafodion hyn.

8. Pan gafodd y mater ei gyfeirio ataf yn wreiddiol, gwnaed hynny ar sail yr hyn a nodir ym mharagraff 2 uchod, sef y bydd Aelodau yn cael eu had-dalu am dreuliau sy'n codi'n anorfod. Er y gallai hyn awgrymu, i gyfreithiwr, fod yr hawliad yn ymwneud â gwaith a wnaed eisoes neu wasanaethau a gwblhawyd eisoes, nid wyf yn fodlon mai'r dehongliad hwn, o reidrwydd, yw'r unig ddehongliad. A oes treuliau wedi codi os, yn ôl y gyfraith, oes rhwymedigaeth gytundebol i dalu £2700 wedi codi yn rhinwedd contract y cytunwyd arno? Beth bynnag, rwy'n fodlon nad oedd yr Aelod wedi ceisio osgoi'r rheoliadau yn fwriadol – yn hytrach, ceisiodd wneud taliad ymlaen llaw am y swm y cytunwyd arnyno er mwyn cadarnhau'r gytundeb. Rwy'n fodlon hefyd na chodwyd cwestiwn ynghylch talu'r swm hwn ar y pryd, ond gallai hyn fod oherwydd bod yr Uned Cymorth Busnes i Aelodau wedi cymryd yn ganiataol, o'r hanes, bod y taliad hwn yn ymwneud â phrosiect a oedd bellach wedi'i gwblhau.

9. Wedi dweud hynny, mae'r Aelod yn dal swydd gyhoeddus ar lefel uchel ac roedd yn ymdrin ag arian cyhoeddus. Yn yr amgylchiadau hyn, fel y mae'r Aelod yn derbyn yn ei datganiad personol, byddai wedi bod yn fwy tryloyw pe byddai'r Aelod wedi nodi yn glir yn ei hawliad fod y prosiect yn cael ei ariannu o flaen llaw. Credaf mai dyna y byddai'r cyhoedd wedi'i ddisgwyl. Ymhellach, byddai hysbysiad o'r fath wedi rhoi rhybudd i'r Comisiwn fod angen monitro'r hawliad hwn yn barhaus, hyd nes iddo gael ei gwblhau.

10. Yn unol â hynny, **rwy'n canfod bod yr Aelod Cynulliad, Bethan Jenkins, drwy ei hymddygiad, wedi torri adrannau 4(b) ac (e) o'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau'r Cynulliad, oherwydd:**

**Wrth gyflwyno hawliad am ad-dalu treuliau, methodd â'i gwneud yn gwbl glir nad oedd y gwaith o dan sylw wedi ei gwblhau, ac felly yn methodd â**

- **chefnogi a hyrwyddo'r egwyddor o fod yn agored a**
- **chryfhau ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn uniondeb y Cynulliad.**

Felly, rhaid i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad ymdrin a'r achos o dan Reol Sefydlog 22.2(i).

**Gwybodaeth ychwanegol**

11. Yn unol â'm pwerau o dan adran 7 o Fesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009, rwy'n cynghori'n barchus y dylid symleiddio'r weithdrefn ar gyfer gwneud hawliadau ar gyfer ad-dalu treuliau er mwyn sicrhau:

A. **bod unrhyw hawliad am waith / gwasanaethau nad ydynt wedi'u cwblhau yn cael ei wneud ar ffurflen sy'n wahanol i'r ffurflen hawlio syml ar gyfer ad-dalu costau.**

fel y gall

B. **unrhyw hawliad am waith neu wasanaethau sydd i'w gwblhau gael ei fonitro gan yr Uned Cymorth Busnes i Aelodau hyd nes y caiff ei gwblhau.**

12. Felly gallai'r ffurflen hawlio safonol gynnwys geiriad i'r perwyl hwn:

*"Mae hwn yn hawliad ar gyfer ad-dalu lwfansau a / neu dreuliau rhesymol sy'n codi'n anorfod mewn cysylltiad â'm gwaith fel Aelod Cynulliad.* ***Rwy'n cadarnhau bod yr arian sy'n cael ei hawlio yn berthnasol i waith neu wasanaethau sydd eisoes wedi'u cwblhau neu sydd wedi'u darparu'n llawn.***
*(Os na allwch wneud y datganiad hwn, RHAID ichi ddweud wrth aelod o staff yn yr Uned Cymorth Busnes i Aelodau.)*"

**Gofynion o dan y Weithdrefn ar gyfer Ymdrin â Chwynion**

13. Gallaf gadarnhau:

- bod yr Aelod a'r Achwynydd wedi cael copi o'r adroddiad terfynol ac nad oeddent am nodi unrhyw wallau ffeithiol ynddo;

- bod yr Aelod, ar ôl cael gwybod am ei hawl i wneud sylwadau llafar i'r Pwyllgor mewn gwrandawiad llafar, wedi dweud nad oedd am geisio arfer yr hawl honno, ac na fyddai'n gwneud hynny;

- bod yr Aelod, ar ôl cael gwybod am ei hawl i gyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r Pwyllgor o fewn amser penodedig, wedi nodi mai'r unig sylwadau ysgrifenedig yr oedd yn dymuno i'r Pwyllgor eu hystyried oedd ei datganiad wedi'i lofnodi ei hun a roddwyd i'r Comisiynydd, dyddiedig 7 Chwefror ac sydd wedi'i atodi i'r Adroddiad hwn.

- bod yr Aelod, ar ôl cael gwybod am bwerau'r Pwyllgor o dan Reol Sefydlog 22.9, 22.10 a 22.11, ac am ei hawl i apelio o dan adran 8.1 o'r Weithdrefn, yn dymuno ildio ei hawl i apelio yn erbyn penderfyniad y Pwyllgor.

**Gerard Elias QC**

**13 Chwefror 2013**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru | National Assembly for Wales

FEES OFFICE V40
~~7532~~1
24 MAR 2011
SWYDDFA FFIOEDD
7532

# 1. OFFICE COSTS ALLOWANCE – CLAIM FORM

This form is for claiming expenses for the cost of maintaining an office in the Assembly Member's constituency. Members should attach receipts with all claims, and contact Members' Business Support with any queries.

☐ Reimbursement ☑ Direct Payment (one claim form per invoice)

Payee: A Thousand Pictures
(Please state company/person to be paid)

| Expenditure type: | £ | Expenditure type: | £ | Expenditure type: | £ |
|---|---|---|---|---|---|
| ☐ Books | | ☐ Office Contents Insurance | | ☐ Parking Permits | |
| ☐ Business Cards | | ☐ Office Electricity | | ☐ Photocopying | |
| ☐ Computer Maintenance | | ☐ Office Equipment - Lease | | ☐ Photography | |
| ☐ Conference Fees | | ☐ Office Equipment - Purchase - IT | | ☐ Postage | |
| ☐ Consultancy | | ☑ Office Equipment - Purchase - Other | 2700.00 | ☐ Presswork | |
| ☐ Eye Test | | ☐ Office Gas | | ☐ Software Program | |
| ☐ Event Stand | | ☐ Office Legal Expenses | | ☐ Staff Recruitment Advertising | |
| ☐ Locksmith | | ☐ Office Maintenance | | ☐ Subscriptions | |
| ☐ Members Training | | ☐ Office Removal Costs | | ☐ Surgery Advertising | |
| ☐ Mobile Telephone | | ☐ Office Rent | | ☐ Surgery Room Rental | |
| ☐ Newspapers/magazines | | ☐ Office Stationery | | ☐ Tickets | |
| ☐ Office Business Rates | | ☐ Office Telephone | | ☐ Translation | |
| ☐ Office Cleaner Salary | | ☐ Office TV Licence | | ☐ Waste Collection | |
| ☐ Office Cleaning | | ☐ Office Water Rates | | ☐ Website | |
| ☐ Office Cleaning Materials | | ☐ Office Window Cleaning | | **TOTAL COST** | 2700.00 |

Additional information: This is a promotional DVD that will be used to increase knowledge of the Assembly, AMs & their work.

I certify that the expenses shown above have been wholly, exclusively and necessarily incurred by me on Assembly duties. I attached receipts in support of all items claimed. I confirm that these items have not been previously claimed.

SIGNED [signature] A.M. PRINTED NAME Bethan Jenkins AM

CONSTITUENCY/ ELECTORAL REGION South Wales West DATE 23/03/2011

NAW/MBS/FORMS2010/1

**Atodiad B**

Bethan Jenkins AM

Personal Statement

1. I acknowledge that I claimed the sum of £2700 as Office expenses in order to fund a DVD which I believed would help promote a better understanding of how the Assembly works. Although at the time of the claim the DVD had not been produced, I intended and believed that the project would be completed within weeks. The money claimed was required to fund "up front" and at a fixed price the work of the film makers. Funding was paid by Members' Business Support Unit to a film maker I had contracted.

2. There are, however, reasons why the project wasn't seen through and I would like to use this statement to explain to the committee why that happened .In the summer of 2010, I conceived an idea of involving more young people in democracy through a multi-media project after becoming concerned by Electoral Commission findings that a majority (58%) of eligible voters under the age of 24 were not registered to vote. Further research discovered that those figures rose in areas of deprivation, such as those found in South Wales West, giving greater urgency to the project in my area.

3. As a young AM who often deals with young people via social media, I was concerned that while they understand the mechanisms and outcomes of voting, learned through participation in shows such as *The X Factor*, they did not feel involved in democratic processes.

4. Ownership is a crucial factor in the popularity of social media - people feel it is theirs to shape and purpose - so it was decided that the use of media in any local democracy project would be essential.

5. The plan was as follows:

- My office would write to sixth forms and colleges across South Wales West and ask if I could come in and speak about my job and how the Assembly works.
- At the end of this discussion, I would set the students a challenge: to form their own "mini parliament" (or convene existing schools councils) and then agree on a subject matter that they could come together to debate, in a similar way to how the Assembly works.
- With the possibility of workshops offered involving myself or my staff in the time between this first meeting and the establishment of "mini parliaments", students would be encouraged to choose among themselves a subject that was close to their hearts. It could be a local project, like much-needed recreation facilities, or a wider subject, such as bullying or eating disorders. It was important to pick a subject that was relevant and which they could engage in.
- A student chosen to propose the debate in a school or college would then be invited to make a short film, which would be shown at the start of the "mini parliament" debate, which I would chair.
- The debate would also be filmed, and the outcome further acted upon. For example, I would have made students aware of the function of the Petitions Committee, offering the real chance of demonstrating to students how an outcome they care about could become a reality through the use of democracy. This process would be filmed for the DVD, to show democracy in action. In this way, it was hoped to increase an interest in the subject among young and would-be voters.
- There would also be a strong element of social media work, with "mini parliaments" encouraged to set up their own Facebook pages, Twitter accounts, blogs and other online forums.
- Once the work was completed, a DVD would be compiled and sent to schools across the region in order to encourage them to take part. The DVD was to be offered to the Assembly and its outreach team. I also hoped that the "mini parliaments" would continue on their own, with visits from me from time to time.

6. I first approached the Assembly Commission with the idea, which warmly received it, shortly after it was conceived. The possibility of funding directly from the Commission, with me taking on the role of directing the project, was seriously discussed. However, in the end, it was felt that funding such a project fell outside the remit of the Commission at that time - although I was told that the Commission was very keen to hear the outcome of the project with a view to taking it on itself.

7. I had in mind a video company, called A Thousand Pictures. In the course of my work as an AM, I had seen its work for Barnardo's and discovered it was based in Swansea. I believe very strongly in supporting the local economy and so approached A Thousand Pictures about producing the video.

8. The company is run by very experienced and professional people who have spent their entire careers in film production and were judged perfect for the role - particularly as they begin contributing ideas from the outset.

9. The company first quoted a price of around £3,500. I believed that exceeded what I was willing to spend on this project where the outcome was unknown, and so I negotiated the company down to £2,700.

10. I therefore made a claim for £2700 and received email confirmation from MBSU staff to inform me that the payment to the company had been made. MBSU directly paid A Thousand Pictures. I was only involved in this process in forwarding an invoice from the company to MBS.

11. At this time, MBSU did not raise any question with me about the project or the DVD. It was only after the matter was raised in a story in the Western Mail in late 2012 that a complaint was made. While I accept that the project was my responsibility, there appears to be no system which distinguishes between work done and yet-to-be-done on the claim forms allocated from the MBSU.

12. With the benefit of hindsight, it was clear that my office underestimated the scale of the work involved in a new project of this kind. Some 29 schools and colleges across the region were contacted and the following expressed an interest in setting up the "mini parliaments":

- Bridgend College
- Neath Port Talbot College
- Gower College, Swansea
- Ysgol Gyfun Gwyr Comprehensive School, Gower
- Morriston Comprehensive School, Swansea
- Pencoed Comprehensive School, Bridgend County Borough
- Bishop Gore Comprehensive School, Swansea
- Ysgol Gyfyn Llangynwyd Comprehensive School, Bridgend County Borough

13. It became clear during discussions with Head teachers and other school staff that they would have to consider issues such as Criminal Records Bureau (CRB) checks, and also getting written permission from parents if filming was involved. My office was warned at this stage that this could take some time to achieve.

14. In fact, what we had hoped would take a matter of weeks could not be resolved before the Assembly elections took place. Unfortunately, at this point, the project was put on the back burner while the election was being fought. It should be pointed out that, at this time, the company offered to return the money, but we agreed to review that once the result of the election was known.

15. I was successful in being re-elected, and soon - along with other AMs - settled into a very busy term as all kinds of issues such as office moves and the handing over of work from fellow Plaid AM Dr Dai Lloyd, who was not fortunate enough to have been elected, was carried out.

16. I made it clear to my office that I wanted the DVD project worked on over the summer, when there would be no work for plenary and little for committees. However, with students and many staff absent over that period, we swiftly discovered that there was little that could be taken forward at this time.

17. There were further problems when we returned to work. I was hospitalised and operated on following a back problem, and lost the member of staff responsible for the DVD project to a three-month sickness absence. Inadvertently, the project slipped from a priority to a marginal position. There were a number of attempts to meaningfully restart the DVD project. A plan to ask community youth groups across the region proved unworkable when local authorities declined to help with access to those groups.

18. As late as October last year, the heads of all the interested schools were re-contacted and asked if they wanted to continue with it.

19. The project was initiated in good faith and has suffered a number of unfortunate delays, such as time to process CRB checks, the election period, the summer recess, which were beyond my control. In addition, and perhaps crucially, as has been noted publicly already, I was also suffering from stress and depression, with loss of work time and this obviously had an impact on me and my work priorities and schedule.

20. The project has been blighted by bad luck, which could not have been foreseen. However, with each setback I sought to find a solution to ensure it could go ahead, although, inevitably, this meant the timescale slipped back.

21. I accept that, with hindsight, my submitted claim could have been more transparent. Involving as it did public money, I accept that it should have explicitly stated that the work was still to be completed at the time of claim.

I would point out, however, that the documentation does not appear to take account of claims made for work yet to be done.

22. It was always my intention that the DVD would be produced and speedily. I did not stand to gain from initiating this project other than to promote youth democracy. Regrettably, complex projects like this sometimes suffer setbacks I recognise the problems caused by failing to complete this project. It had been my intention to repay that trust by involving more young people in our democratic processes, and I still hope that I can seek to involve more young people in politics in the future.

Bethan Jenkins AM

...Bethan Jenkins... 5 February 2013